

### Holl fyfyrwyr eraill:

#### O ble dylwn i gasglu fy allwedd?

Derbynfa Llys Senghennydd; gweler y map drosodd neu defnyddiwch CF24 4DS yn eich teclyn llywio lloeren.

#### Pryd dylwn i gasglu fy allwedd?

10am i 4pm ar ddiwrnod cyntaf eich Cyfnod Preswyl (fel y nodir 'r dyddiad hwn ar eich Cytundeb Llety ar-lein)

**Os na fyddwch yn casglu eich allwedd erbyn 4pm, efallai bydd eich llety neilltuedig yn cael ei dynnu'n ôl ac yn cael ei gynnig i fyfyrwr arall.**

Ebostiwrch:residences@caerdydd.ac.uk os oes gennych ymholiadau am statws eich cais.

### Cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus:

#### Os byddwch yn cyrraedd gorsaf reilffordd Caerdydd Canolog, neu ar fws:

**Tacsi** – Gallwch gael gafael ar dacsî yn rhwydd o'r safle tacsîs y tu allan i orsaf reilffordd Caerdydd Canolog. Os byddwch yn cyrraedd ar fws ac yn methu dod o hyd i dacsî, 02920 333 333 yw rhif un o'r cwmnïau tacsîs lleol. Bydd y rhain yn costio oddeutu £10, gan ddibynnu ar y pellter a faint o fagiau sydd gennych.

**Bws** – Mae nifer o lwybrau bysiau yn rhedeg o ganol dinas Caerdydd, sy'n aros gerllaw neuaddau preswyl. I gael rhagor o wybodaeth ac amserlenni, ewch i'r dudalen we ganlynol: <http://www.cardiffbus.com/>

### A oes lleoedd parcio ar gael?

- Ar ôl cyrraedd Llys Senghennydd, byddwch yn cael eich cyfeirio at le parcio dros dro tra y byddwch yn casglu eich allwedd o'r Dderbynfa; mae hyn wedi ei gyfyngu i un car fesul myfyrwr

#### Llys Senghennydd/Neuadd Senghennydd/Neuadd Gordon

- Wedyn, byddwch yn cael eich cyfeirio at gyfleusterau parcio dros dro eraill ar y safle i ddadlwytho.
- Yn anffodus, gallwn ganiatáu 45 munud yn unig i ddadlwytho eich cerbyd oherwydd cyfyngiadau parcio a faint o bobl sy'n cyrraedd
- Ar ôl dadlwytho, gellir parcio yn y maes parcio aml-lawr cyhoeddus ym Mhlas Dumfries (gweler y map drosodd)


#### Tai/Fflatiau Myfyrwyr

- Yn anffodus nid oes manau parcio ar gael yn y Brifysgol. Mae nifer cyfyngedig o fannau parcio ar gael ar y stryd, ac mae wardeniaid traffig yn patrolio'r stryd yn rheolaidd felly dylech ddadlwytho mor gyflym â phosibl a gwneud yn siŵr bod rhywun yn aros gyda'r cerbyd bob amser wrth ddadlwytho
- Ar ôl dadlwytho, gellir parcio yn y maes parcio aml-lawr cyhoeddus ym Mhlas Dumfries (gweler y map drosodd)

Llys Senghennydd – cyfeirnod map 47

Neuadd Senghennydd - Cyfeirnod map 46

Neuadd Gordon - Cyfeirnod map 43



### Neuadd Gordon

Ar ôl casglu eich allwedd o Llys Senghennydd, trowch i'r dde i Ffordd Senghennydd ac ar ddiwedd y ffordd, trowch i'r chwith i Heol Salisbury
Cymerwch y troad cyntaf ar y dde i Heol Lowther, sy'n mynd o dan bont
Trowch i'r dde ar ddiwedd y ffordd, i Heol Richmond
Dilynwch y ffordd am oddeutu 200 metr
Wrth i'r ffordd wyro i'r dde, byddwch yn gweld ysgol ar y chwith
Cymerwch y troad nesaf i'r dde, i Heol Gordon
Mae Neuadd Gordon ar yr ochr dde

# MAP O'R SAFLE

